SchoolBeat.org




Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan

# Cylchlythyr
# Hydref 2013

The All Wales School Liaison Core Programme
Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Eitem arbennig: Ymddygiad gwrthgymdeithasol | Tudalen 3, 4, 5 |
| Sbotolau ar gyffuriau: Khat | Tudalen 6 |
| Ar ddod/beth sy'n digwydd? | Tudalen 7 |
| Gwersi newydd – Llinyn Diogelwch | Tudalen 8 |


**Annwyl gyfaill,**

**Gobeithio eich bod wedi mynhau gwyliau'r haf. Mae rhifyn yr hydref yn llawn o bethau diddorol, gan gynnwys eitem arbennig ar ymddygiad gwrthgymdeithasol.**




> "Mae'n bwysig mai ein nod yw gweithio gyda phob partner i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwella'r gwasanaeth i ddioddefwyr, gyda'r bwriad o greu cymunedau cryf, diogel ac iach."

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru –**
Rt Hon Alun Michael JP, FRSA

# Eitem Arbennig

**Ymddygiad gwrthgymdeithasol**

**Mae gweithio gyda phartneriaid er mwyn atal a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn flaenoriaeth i Gomisiynwyr y 4 Heddlu yng Nghymru. Gan gydweithio ag ysgolion ledled Cymru, mae Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan Gyfan yn cynnig gwersi sy'n helpu disgyblion i ddeall beth yw ymddygiad gwrthgymdeithasol, ei effaith ar bobl a'r canlyniadau i'r rhai sy'n ymddwyn yn y fath modd.**

Dywedodd Christopher Salmon, **Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,**

> "Atal yw'r allwedd i leihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol."

Mae Ian Johnston, **Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent,** yn cydnabod yr angen i...

> "... weithio gyda phartneriaid er mwyn atal ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein cymunedau."

**Yng Nghymru, mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol Lleol yn ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.**
**Pan wneir cwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol, cânt eu trin gan broses cam wrth gam (4 cam fel arfer) o lythyrau a rhybuddion.**

I gychwyn, gall llythyr rhybudd gael ei anfon. Os yw hyn yn methu, gall ymweliad cartref neu gyfarfod wyneb yn wyneb ddilyn.

Os yw ymddygiad gwrthgymdeithasol yn parhau, gallai'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ofyn i'r troseddwr arwyddo Cytundeb Ymddygiad Derbyniol. Cytundeb ysgrifenedig yw hwn lle y mae'r troseddwr yn cytuno i beidio â chyflawni gweithred benodol, megis taflu cerrig, neu fynd i le arbennig. Mae Cytundeb Ymddygiad Derbyniol fel arfer yn para 6 mis.



Y cam olaf yw Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, sy'n cael ei adnabod yn gyffredin fel ASBO. Gorchymyn Llys yw hwn sy'n cynnwys rhestr o weithgareddau NA DDYLAI'R troseddwr eu gwneud. Gall y rhain gynnwys: bod allan ar ôl amser penodol, bod yng nghwmni unigolyn penodol, neu fynd i le penodol.

Mae Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn para o 2 flynedd hyd at weddill eich oes. Os yw rhywun yn torri ASBO, bydd yr Heddlu'n ei arestio ac yn mynd â hwy i'r llys. Yn y llys, mae'n bosibl y cânt ddedfryd o hyd at 5 mlynedd o garchar. Mae torri ASBO yn drosedd.

ASBO

## Newid yn y Gyfraith

Mae'r Llywodraeth wedi penderfynu newid y ffordd y mae pobl ifainc (10 i 17 oed) yn cael eu trin gan y System Cyfiawnder Troseddol. Y nod yw cadw pobl ifainc allan o'r broses llys a gwneud rhywbeth er lles y dioddefydd a'r drwgdybiedig.

O ganlyniad, o 08/07/13 ymlaen, bydd pobl ifainc sy'n cael eu hamau o gyflawni mân droseddau'n cael eu trin drwy un o'r 3 dull canlynol:

- Datrysiad Cymunedol
- Rhybudd Ieuenctid
- Rhybudd Amodol Ieuenctid

"Byddwn yn parhau i ddatblygu'r defnydd o gyfiawnder adferol a datrysiad cymunedol er mwyn helpu i sicrhau y clywir barn dioddefwyr a bod troseddwyr yn sylweddoli gwir effaith eu gweithredoedd ar eraill."

Winston Roddick, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru

Mae'r Swyddogion Ysgolion wedi cael eu hyfforddi i hwyluso cyfarfodydd adferol a maent yn gallu cefnogi eich ysgol gyda'r arfer da yma.

## Datrysiad Cymunedol

Dull amgen anstatudol ar gyfer ymdrin â throseddau llai difrifol yw datrysiad cymunedol, sy'n caniatáu i swyddogion heddlu ddefnyddio'u barn proffesiynol wrth ymdrin â throseddwyr. Gellir ei ddefnyddio ar gyfer troseddau megis trefn gyhoeddus lefel isel, difrod troseddol, lladradau ac ymosodiadau llai difrifol. Bydd Datrysiad Cymunedol yn galluogi dioddefwyr i gael datrysiadau a diweddglo buan i'w trosedd. Dygir troseddwyr i gyfiawnder yn gyflym, a bydd llai o fiwrocratiaeth ar gyfer swyddogion heddlu.

## Rhybuddion Ieuenctid

Rhybuddion ffurfiol yw Rhybuddion Ieuenctid a ddefnyddir pan nad yw erlyn troseddwr 10-17 oed o fudd i'r cyhoedd.

## Rhybuddion Amodol Ieuenctid

Rhybuddion Ieuenctid ag amodau priodol yw Rhybuddio Amodol Ieuenctid. Rhaid i unrhyw amod fod yn:

**Atgyweiriol** (e.e. ymddiheuro i'r dioddefydd, talu iawndal a gwneud yn iawn am ddifrod);
**Adsefydliadol** (e.e. mynychu cwrs triniaeth); a/neu
**Cosbol** (e.e. dirwyon am ddifrod a gwaith di-dâl).





Gall Swyddogion Ysgolion gyflwyno cyflwynidau gwasanaeth o'r enw Peidiwch a Chwarae â Than i CA2 a CA3/4 – Mae'r gwasanaethau'n edrych ar aros yn ddiogel ac osgoi ymddygiad gwrthgymdeithasol ar Nos Galan Gaeaf a Noson Tân Gwyllt.







# Gwasanaethau Calan Gaeaf a Noson Tan Gwyllt



> **Ymddygiad gwrthgymdeithasol yw...**
>
> **unrhyw ymddygiad y tybiwch chi allai gynhyrfu rhywun neu sy'n anghywir neu'n dor-cyfraith.**

Diffiniad a ddefnyddir gan Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan

# Sbotolau ar gyffuriau!

## Newyddion am Khat!



**Ewch i www.schoolbeat.org am fwy o wybodaeth ynglŷn â chyffuriau!**

### Ffeithiau

Sylwedd llysieuol yw Khat sy'n dod o blanhigyn blodeuol sy'n perthyn i Ogledd Ddwyrain Affrica a 'r Penrhyn Arabaidd. Mae'r dail yn cael eu cnoi, gan greu effaith adfywiol, sy'n debyg, ond yn llai dwys, nag effeithiau Cocên neu Methamffetamin. Mae'n cael ei ddefnyddio'n bennaf yn Affrica, ond yn dod yn fwyfwy cyffredin yn y DU, yn arbennig mewn rhai cymunedau o fewnfudwyr.

### Effeithiau

- Gall ei gnoi wneud i berson deimlo'n fwy effro a siaradus, a gall greu teimladau o orfoledd.
- Gall atal yr awydd am fwyd
- Yn ôl rhai defnyddwyr, mae'n creu teimlad o lonyddwch neu ddedwyddwch

### Y Gyfraith

Daeth Khat yn sylwedd dosbarth C a reolir o ddydd Mercher 3 Gorffennaf 2013.



## Rhybudd PMA

Sylwedd tebyg i ecstasi yw PARAMETHOCSIAMFFETAMIN neu **PMA,** sy'n gysylltiedig â nifer o farwolaethau diweddar yn y DU. Nid oes gan y tabledi sydd o'r pryder mwyaf yr un effaith â thabled ecstasi, ac nid ydynt yn effeithio arnoch mor gyflym. Gallai defnyddwyr gredu eu bod wedi cymryd tabled ecstasi 'gwan', er eu bod mewn gwirionedd wedi cymryd tabled sy'n cynnwys y sylwedd hynod wenwynig hwn. Yna, mae'n bosibl y byddant yn cael eu temtio i gymryd mwy o dabledi er mwyn cael yr effaith maent yn dymuno, gan gynyddu'r risg o orddos angheuol posibl. Mae **PMA** yn gyffur dosbarth 'A'.

### Ynglŷn â Mamba Du

Cynnyrch llysieuol Dosbarth B yw Mamba Du. Mae'n cynnwys y canabinoid synthetig AM-2001 ac Oleamid (asid sy'n peri cwsg).

**Mae arogl cemegol cryf yn y pecyn. Does dim arogl arbennig wrth ei ysmygu.**

Mae'n achosi tripiau ac mae'n gryf iawn, fel sgýnc.

**Mae defnyddwyr ar-lein yn riportio chwydu, colli rheolaeth, anawsterau anadlu a seicosis.**



# Beth sy'n digwydd?

## Cwis RhGCYCG

Cwis atal trosedd, iechyd a diogelwch ar gyfer disgyblion blwyddyn 8.

- Rownd Leol – 20fed Tachwedd 2013
- Rownd Ranbarthol – 17eg
- Rhagfyr 2013
- Rownd Genedlaethol – 6ed Chwefror 2014

## Cynhadledd Athrawon Cynradd

**Gogledd Cymru – 23 ain 2014**
**Ddwyrain Cymru – 28 ain 2014**
**De Orllewin Cymru – 30 ain 2014**

Cynnal dysgu:

- Camddefnyddio Cyffuriau a Sylweddau
- Cam-drin Domestig
- Diogelwch ar y Rhyngrwyd

**Archebwch eich lle nawr er mwyn osgoi cael eich siomi!**
**£100 yr ysgol tuag at gostau cyflenwi**



# Ar Ddod!

## 14eg Hydref

Diwrnod Cenedlaethol Diogelwch Personol

## 18fed – 22ain Tachwedd

Wythnos Gwrth-fwlio

**Siaradwch â'ch Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion i drefnu cyflwyniadau ar gyfer eich ysgol**


## Cofiwch

fod gan bob gwers Rhaglen Graidd waith dilynol ar gyfer athrawon ar ein gwefan:

**www.schoolbeat.org**



# Gwersi Newydd Llinyn Diogelwch



## Chwarae'n Ddiogel

### Y Cyfnod Sylfaen

Gan ddefnyddio amryw o gymhorthion gweledol, ategolion a stori, mae'r wers yn helpu disgyblion i adnabod llefydd diogel i chwarae ac yn atgyfnerthu pwysigrwydd dweud wrth oedolyn y maen nhw'n ymddiried ynddynt ble maen nhw bob tro.

## Ffrind neu Elyn

### Cyfnod Allweddol 2 Isaf

Nod y wers yw adnabod pobl y medrwch ymddiried ynddynt. Gofynnir i'r dysgyblion ystyried sefyllfaoedd bywyd ac mewn grwpiau, gofynnir iddynt drafod strategaethau ar gyfer eu cadw'n ddiogel. Mae'r wers hefyd yn tynnu sylw at bwy mae'r plant yn medru siarad â nhw os oes angen help neu gymorth arnynt.

## Dychmygwch Hwn



### Cyfnod Allweddol 2 Uchaf

Yn y wers hon, mae'r disgyblion yn dysgu am ddefnyddiau cadarnhaol ffônau symudol. Trwy drafod a defnyddio adnoddau rhyngweithiol, mae'r disgyblion yn archwilio i ganlyniadau camddefnyddio ffônau symudol, sut i atal pethau rhag mynd o'i le, a phwy all helpu os yw hynny'n digwydd.

## Na yw Na!



### Cyfnod Allweddol 4

Mae'r wers hon yn cyflwyno'r cysyniad o ganiatâd ac yn datblygu strategaethau ar gyfer galluogi disgyblion i ddeall cydsyniad rhywiol. Mae disgyblion yn gwylio DVD ar gyfer cychwyn trafodaeth grŵp am gydsyniad rhywiol, y gyfraith a'i chanlyniadau, ac yn archwilio senarios i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus. Hefyd, mae'r wers yn tynnu sylw at asiantaethau cymorth lleol a chenedlaethol.

## Twyll Peryglus Ecsploetio Rhywiol




### Cyfnod Allweddol 4

Defnyddir DVD sy'n seiliedig ar ddigwyddiad go iawn i ddisgrifio stori merch o'r enw Lucy sy'n cael ei pharatoi at bwrpas rhyw gan ddyn sydd wedi cysylltu â hi dros y rhyngrwyd sy'n honni ei fod o Asiantaeth Modelu. Cyn hir, daw Lucy'n ddioddefydd camfanteisio rhywiol. Gan ddefnyddio gweithgareddau rhyngweithiol a thrafodaethau, mae'r wers yn canolbwyntio ar adnabod arwyddion bod rhywbeth o'i le ac yn annog disgyblion i ddarganfod cyfleoedd ar gyfer gwneud dewisiadau cadarnhaol a chadw'n ddiogel.

* Mae'r wers Perthnasau Diogelach wedi symud o CA4 i CA3